# Cylchlythyr

## *Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Cymru*

**RHIFYN 1**
**IONAWR 2019**



Mae **Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS)** yn blanhigion, anifeiliaid, ffyngau a micro-organebau a gyflwynwyd i rannau o'r byd ble na fyddent i'w cael yn naturiol. Gallant ymledu gan achosi difrod i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'n ffordd o fyw. INNS yw'r ail fygythiad mwyaf ar ôl darnio a cholli cynefinoedd. Amcangyfrifwyd bod INNS yn costio o leiaf £1.8 biliwn y flwyddyn i economi'r DU, maent yn effeithio'n bennaf ar y sectorau ffermio a garddwriaethol ond gallant effeithio hefyd ar drafnidiaeth, adeiladu, hamdden, dyframaethu a chyfleustodau.

Mae **Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC)** yn ffynhonnell arbenigol ar INNS yng Nghymru. Sefydlwyd y grŵp yn 2008 ac mae'n cynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid o Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, y trydydd sector amgylcheddol a sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat eraill.

Dysgwch fwy am y grŵp ar ein gwefan benodedig ar wefan PBC.

**PYNCIAU LLOSG**

## Rheoli Cacwn Asia



*Ffigur 1: Cacynen Asia © Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)*

Gallai'r effaith y mae Cacynen Asia yn ei fygwth ar wenyn a phryfed peillio eraill fod yn ddifrifol. Mae Cynllun wrth gefn ar gyfer Cacwn Asia yng Nghymru a Lloegr yn ei le ac mae'n amlinellu'r camau i'w cymryd os ceir achos ohonynt.

Hyd yma, cafwyd 13 o achosion wedi eu cadarnhau o weld Cacynen Asia yn Lloegr. Digwyddodd naw o'r achosion hyn yn 2018; cacynen unigol yn Sir Gaerhirfryn (Ebrill), un yn Hull, tair yng Nghernyw, dwy yn Hampshire, un yn Surrey (i gyd ym mis Medi) a'r diweddaraf yng Nghaint (Hydref). Ers canfod y Gacynen Asia gyntaf yn y DU, mae'r cynllun wrth gefn wedi llwyddo i ddifa chwe nyth (2016 un yn Swydd Gaerloyw, 2017 un yn Nyfnaint, 2018 dau yng Nghernyw a dau yn Hampshire).

Mae ymateg yr Uned Wenyn Genedlaethol yn ddibynnol ar ganfod cynnar fel y gallant weithredu'n gyflym. Eu prif dechneg dilyn trywydd yw triongli cyfeiriad llinellau gweledigaeth ar gyfer cacwn fydd yn dychwelyd i nyth wedi casglu gwenyn mêl o wenynfeydd, cymryd abwyd siwgr neu brotein a adawyd mewn gorsafoedd neu borthi ar iorwg. Eleni, defnyddiodd Prifysgol Caerwysg dagio radio electronig i helpu i ddarganfod nyth yn Hampshire.

Gan amlaf tua mis Medi, bydd nifer y cacwn yn cynyddu wrth i'r nyth aeddfedu. Mae hyn yn golygu eu bod yn haws i'w gweld, oherwydd cynnydd mewn gweithgarwch, ond prin fydd yr amser i ganfod a difa'r nyth cyn iddo gynhyrchu breninesau newydd. Mae'n hanfodol i unrhyw amheuaeth o weld cacwn Asia gael eu hadrodd cyn gynted ag y bo modd ar ap 'Asian Hornet Watch' neu trwy e-bostio alertnonnative@ceh.ac.uk, yn ddelfrydol gyda llun o'r gacynen a'i lleoliad.

## Rheoli Cacwn Asia parhad



*Ffigur 2 Rheoli Cacwn Asia © Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)*

Ni welwyd Cacwn Asia yn y DU ers y 14eg Hydref. Mae'r perygl o ganfod nyth cacwn Asia byw yn y DU yn fach iawn bellach gan nad yw cacwn Asia yn actif yn ystod misoedd oer y gaeaf. Mae perygl o hyd y bydd brenhines Cacwn Asia yn cael ei chludo'n ddamweiniol.

*Kathleen Carroll, Llywodraeth Cymru*

## DEDDFWRIAETH A PHOLISI

Ar ddechrau 2018, cynhaliodd Llywodraeth Cymru a Defra ymgynghoriad cyhoeddus ar y cyd yn gofyn am sylwadau ar gyfundrefn i orfodi'r **Rheoliad Rhywogaethau Goresgynnol Estron (IAS) yr UE** yng Nghymru a Lloegr. Bwriedir cyflwyno deddfwriaeth Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Chaniatáu) 2019 ym mis Mawrth er mwyn sefydlu sancsiynau i gwmpasu'r cyfyngiadau a amlinellir yn Rheoliad yr UE. Bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda Rheoleiddwyr Cymru a Lloegr i lunio canllawiau i egluro ynghylch troseddau y gellid eu herlyn trwy'r llwybr sifil a'r rheini allai arwain at achosion troseddol. Caiff y Cwestiynau Cyffredin presennol i Randdeiliaid yn y DU ar y gofynion sy'n ymwneud â Rheoliad IAS yr UE eu diwygio i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd.


Mae **cynlluniau rheoli ledled y DU** ar gyfer rhywogaethau fel pidyn-y-gog Americanaidd a dail-ceiniog arnofiol yn cael eu datblygu er mwyn cyflawni'r gofynion ar gyfer mesurau rheoli effeithlon ar gyfer IAS cyffredin sydd o bryder i'r Undeb. Ymgynghorir ar y cynlluniau rheoli maes o law.

## LATEST NEWS

## New Invasive Non-native Species Portal in Wales

Mae Atlas Cymru y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (NBN) wedi rhyddhau'r Porthol Rhywogaethau Goresgynnol Estron (INNS). Mae'r Porthol INNS yn cynnwys dros 300 o rywogaethau tir, dŵr croyw a morol sydd o ddiddordeb i Gymru ac mae'n caniatáu ichi chwilio am a lawrlwytho bodolaeth a dosbarthiad rhywogaethau yn unigol neu'n gyfunol ar ffurf rhestr. Mae rhywogaethau'n cynnwys rhai a restrir dan ddeddfwriaethau cenedlaethol a'r UE a rhai sydd o ddiddordeb polisi ac ymarferol, yn cynnwys rhai a ddynodwyd fel **Rhywogaethau Goresgynnol Estron â Blaenoriaeth yng Nghymru** gan y Grŵp. Am gymorth i ddefnyddio'r porthol newydd, gweler Canllaw Defnyddwyr Porthol INNS.

Er mwyn cadw'r data sydd ar Atlas NBN yn gryf ac wedi ei ddiweddaru, rydym angen eich help chi i **gofnodi achosion** o rywogaethau goresgynnol. Mae'r ap iRecord ac Ap LERC Cymru, y gellir eu lawrlwytho'n rhad ac am ddim, yn gwneud cofnodi achosion dros y ffôn yn hawdd iawn. Bydd cofnodi trwy ddefnyddio'r naill ap neu'r llall yn cyfrannu at well dealltwriaeth o ble ceir rhywogaethau goresgynnol, sut y maent yn ymledu a'u heffaith. Sylwer: mae apiau *Planttracker*, *Aquainvade* a *Sealife* wedi eu dileu'n ddiweddar gan nad oes ariannu ar gael bellach i'w cynnal ar draws Prydain Fawr.




*Ffigur 3: Porthol INNS, Atlas Cymru NBN*

## Rhywogaethau Goresgynnol Estron â Blaenoriaeth yng Nghymru

Mae'r grŵp yn cadw rhestr o rywogaethau â blaenoriaeth a argymhellir ar gyfer atal (ddim yng Nghymru ond yn debyg o gyrraedd); â blaenoriaeth i'w rheoli (ble mae lefelau poblogaeth yn isel er mwyn cyfyngu ar ymsefydlu ehangach); a rheoli tymor hir (INNS sydd wedi ymsefydlu yng Nghymru ble byddai gwaith rheoli o fudd). Gweler y rhestr ar wefan PBC.

## PROSIECTAU PARTNER: PWYTH MEWN PRYD

### *Ydyn ni'n wynebu'r un hen broblem gyda Jac y Neidiwr yn 2019?*

Mae Prosiect *Pwyth mewn Pryd*, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'i redeg gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, wedi bod yn defnyddio dull ar raddfa dalgylch i reoli Jac y Neidiwr, clymog Japan a Rhododendron yng Nghwm Gwaun yng Ngogledd Sir Benfro.

Mae'r gwaith o reoli Jac y Neidiwr wedi bod yn llwyddiant mawr, gyda safleoedd ffynhonnell Cwm Gwaun bellach yn symud i gyfnod monitro a chynnal a chadw (yn hytrach na rheolaeth weithredol), tra bo'r safleoedd ar hyd y brif afon yn arddangos cynnydd da iawn mewn amser byr. Felly, fyddwn ni'n wynebu'r un hen broblem pan ddaw'r prosiect i ben ym mis Mawrth 2019?

Mae gwaith rheoli Jac y Neidiwr ar y gweill ar oddeutu 9 hectar yn y dalgylch, sy'n amrywio o ran mathau o gynefin. Tynnwyd y lluniau isod ar yr Afon Gwaun ac maent yn dangos enghraifft wych o sut y gall *pwyth mewn pryd* ddatrys y broblem.



*Ffigur 4: Jac y Neidiwr ar Afon Gwaun ym mis Awst 2017 © Matthew Tebbutt*

O fis Mawrth 2018 ymwelwyd â'r safle ddwywaith y mis. Erbyn mis Gorffennaf y cyfan oedd ar ôl oedd un neu ddau blanhigyn slei.



*Ffigur 5: Afon Gwaun, yr un safle ym mis Gorffennaf 2018 © Matthew Tebbutt*

Mae'r nod o ddileu cenedlaethau dilynol mewn un tymor yn gweithio, ond mae'n rhaid ymrwymo'n llwyr i gyflawni hyn. Mae ail-ymweld i gynnal gwaith rheoli o fewn pythefnos yn ddelfrydol; mewn pedair wythnos fan bellaf. Gan nad oedd y tirfeddiannwr yn barod i dderbyn gwirfoddolwyr yn yr achos hwn, gwnaethpwyd y gwaith gan staff APCAP a chontractwyr - cost y gellid ei chyfiawnhau, gan y bydd niferoedd yr ymweliadau yn 2019 yn disgyn i efallai bedwar dros y tymor. Yn 2020, bydd hyn yn gostwng eto i ddau neu dri, ac yn y blaen.

Mae'r safle'n giplun o'r llwyddiant y mae'r prosiect wedi ei weld ar draws y dalgylch cyfan. Mae rheoli Jac y Neidiwr yn golygu cost gyson am ddau neu dri thymor ond yna mae'n gostwng wrth i'r safleoedd symud ymlaen i gyfnod monitro a rheoli. Mae costau rheoli clymog Japan a Rhododendron yn haneru o leiaf yn dilyn y driniaeth gyntaf, gan barhau i ostwng wrth i'r tyfiant ar yr wyneb gael ei dorri'n ôl.

Beth yw'r strategaeth ymadael ar gyfer y prosiect? Rydym wedi ymgeisio am adnoddau i warchod y tir a enillwyd ac i ehangu'r dull hwn i ddalgylchoedd newydd. Fodd bynnag, waeth beth fo'r canlyniadau ariannu, rydym yn dal â diddordeb yn y cwestiwn hwn - sut allwn ni gadw dalgylchoedd afonydd sydd wedi eu trin a dalgylchoedd ehangach yn rhydd o rywogaethau goresgynnol gydag ychydig neu fawr ddim adnoddau cyhoeddus?

Daw gwirfoddolwyr, fu mor allweddol yn ystod y prosiect, i'r adwy unwaith eto. Mae grwpiau o wirfoddolwyr wedi mabwysiadu safleoedd strategol yng Nghwm Gwaun, y byddant yn eu monitro ac, os oes angen, yn eu rheoli gan ddefnyddio hyfforddiant a sgiliau a enillwyd fel rhan o'r prosiect. Mae tirfeddianwyr hefyd, yn fwy ymwybodol o'r broblem ac yn fwy agored i gymryd rheolaeth gan fod y sefyllfa'n haws i'w rheoli.

Mae prosiect Pwyth mewn Pryd wedi llwyddo i arddangos bod mabwysiadu agwedd systematig - ar gyfer dalgylchoedd o amgylch dŵr, dechrau i fyny'r afon a gweithio eich ffordd i lawr - yn helpu i gyfeirio adnoddau gan sicrhau'r effaith mwyaf posibl a lleihau costau, gan ei fod yn cyfyngu'r potensial am ail-heigiad, **felly mae'r sefyllfa yn 2019 yn newydd**. Gallai cydlynu rhanbarthol ddilyn ymlaen o brosiectau dalgylch penodol er mwyn sicrhau nad yw'r newydd yn dychwelyd i'r hen.

*Matthew Tebbutt, Cydlynydd Prosiect Pwyth mewn Pryd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro*

## DIGWYDDIADAU

**13$^{eg}$ i'r 19$^{eg}$ Mai 2019**

### Wythnos Rhywogaethau Goresgynnol

Cynhelir y pumed Wythnos Rhywogaethau Goresgynnol yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 13$^{eg}$ Mai 2019. Bydd pob diwrnod yn cynyddu ymwybyddiaeth am INNS trwy ganolbwyntio ar amgylchedd gwahanol, ac effeithiau INNS.

Cydlynir yr wythnos gan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. Dysgwch fwy am Wythnos Rhywogaethau Goresgynnol, yn cynnwys syniadau am ddigwyddiadau a ffyrdd i ymuno, ar wefan GB NNSS.




**1$^{af}$ i'r 9$^{fed}$ Mehefin 2019**

### Wythnos Natur Cymru

Wythnos flynyddol o ddigwyddiadau ar thema bywyd gwyllt a gynhelir ledled Cymru.

Ymwelwch â gwefan PBC am fwy o wybodaeth.

**5$^{ed}$ – 6$^{ed}$ Chwefror 2019**

### Gweithdy Grwpiau Gweithredu Lleol Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr

*Cyngor Astudiaethau Maes, Preston Montford, Amwythig.*

Dod â gwirfoddolwyr a staff Grwpiau Gweithredu Lleol (LAGs) ynghyd o bob cwr o Brydain Fawr i gyfnewid arfer gorau a thrafod problemau cyffredin. Cyfle i'r NNSS, a siaradwyr gwadd eraill, i ddiweddaru LAGs ar fentrau ar lefel genedlaethol allai fod o ddiddordeb, newidiadau perthnasol i ddeddfwriaethau a fforwm i LAGs gyfathrebu'n uniongyrchol gyda llunwyr polisïau ar lefel uwch.

Am fwy o wybodaeth ac i ofyn am ffurflen gofrestru, cysyllter â Linda.Raine@apha.gsi.gov.uk neu ymwelwch â gwefan GB Non-native Species.

## CYSYLLTWCH Â NI

www.biodiversitywales.org.uk/Gr-p-Rhywogaethau-Estron-Goresgynnol

@WBP_wildlife

walesbiodiversitypartnership@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, d/o Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria,
29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP